

Diogelwch barbeciw



Mae barbeciw yn cynhyrchu monocsid carbon (CO) sy'n nwy eithriadol o wenwynig. Heb ddigon o awyr iach mae CO yn gallu lladd yn gyflym a heb rybudd.

Dilynwch yr awgrymiadau syml hyn i ddefnyddio'ch barbeciw'n ddiogel:

- ☑ Peidiwch byth â mynd â barbeciw wedi'i gynnu neu sy'n mudlogi (golosg neu nwy) i mewn i babell, carafán neu gaban. Hyd yn oed os ydych wedi gorffen coginio bydd eich barbeciw yn dal i ollwng mygdarthau am ychydig o oriau ar ôl ei ddefnyddio.
- ☑ Peidiwch byth â defnyddio barbeciw y tu fewn i'ch cadw'n gynnes.
- ☑ Peidiwch byth â gadael barbeciw wedi'i gynnu heb oruchwyliaeth neu pan fyddwch yn cysgu.
- ☑ Defnyddiwch y barbeciw yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithredu pob amser.
- ☑ Gosodwch eich ardal coginio yn ddigon pell i ffwrdd o'ch pabell. Gwnewch yn siŵr yn fod yna ddigon o awyr iach bob amser ble mae'r barbeciw yn cael ei ddefnyddio.
- ☑ Cofiwch y chwe phrif symptom o wenwyno gan CO - cur pen, pendro, colli gwynt, eisiau taflu i fyny, llewygu a cholli ymwybyddiaeth. Os byddwch yn bryderus, ewch am gymorth meddygol ar unwaith.

Dilynwch yr awgrymiadau ychwanegol hyn os ydych yn defnyddio offer gwwersylla nwy:



- Gwnewch yn siŵr fod yr offer mewn cyflwr da a bod y peipiau wedi'u cysylltu'n iawn a heb eu difrodi. Os byddwch yn amheus, gosodwch beipiau newydd neu beidio â'u defnyddio.
- Wrth newid eich silindr nwy, trowch y tapiau nwy i ffwrdd a newid y silindr yn yr awyr agored bob amser.
- Peidiwch â gor-dynhau uniadau.
- Peidiwch byth â mynd â stôf, golau neu wresogydd i mewn i babell, carafán neu gaban oni bai ei fod yn osodiad parhaus, sydd wedi'i osod a'i gynnal yn gywir gan beiriannydd cofrestredig Gas Safe.
- Ar ôl gorffen coginio, diffoddwch y silindr nwy cyn diffodd rheolau'r barbeciw – mae hynny'n golygu y bydd unrhyw nwy yn y beipen yn cael ei ddefnyddio.
- Darllenwch gyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr ynghylch sut i weld a yw nwy'n dianc o'r peipiau e.e. gyda hylif canfod nwy sy'n gollwng o gwmpas y uniadau a chwilio am swigod.

Y Gofrestr Gas Safe yw'r rhestr swyddogol o beirianwyr nwy sydd â chaniatâd cyfreithiol i weithio ar offer nwy.

Mae'r Gofrestr Gas Safe yma i helpu i gadw chi a'ch teulu'n ddiogel.

 [GasSafeRegister.co.uk/BBQ](https://www.gasregister.co.uk/BBQ)

